# Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020



Mai 2013

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

www.gwynedd.gov.uk

**MYNEGAI** *Tudalen*


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **RHAGAIR** | 3 |
| 2. | **CYFLWYNIAD** | 4 |
| 3. | **CYD-DESTUN A CHEFNDIR** | 5 |
| 4. | **YMGYNGHORIAD** | 9 |
| 5. | **RHAI MATERION ALLWEDDOL** | 10 |
| 6. | **MARCHNATA** | 12 |
| 7. | **BLAENORIAETHAU A CHYNLLUN GWEITHREDU** | 15 |
| | **ATODIAD A:** Dadansoddiad o gynnig a chynnyrch Twristiaeth Gwynedd | 18 |
| | **ATODIAD B:** Dadansoddiad o broffil a chymhelliant ymwelwyr | 20 |
| | **ATODIAD C:** Canlyniadau Arolwg Busnes ar-lein | 22 |
| | **ATODIAD CH:** Casgliadau gweithdai o'r seminar rhan ddeiliaid | 25 |
| | **ATODIAD D:** Dadansoddiad o apêl yr ardal yn y farchnad | 28 |



*Cyhoeddir y cynllun hwn gan Gyngor Gwynedd.*

*Mae pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir.*
*Nid yw Cyngor Gwynedd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am wallau neu anghysonderau.*

*Lluniwyd y Cynllun Rheolaeth Cyrchfan gan Arwel Jones ac Ati gyda chefnogaeth Yellow Railroad, mewn cydweithrediad â Chyngor Gwynedd, Is-Grŵp Twristiaeth Partneriaeth Economaidd Gwynedd, a rhan ddeiliaid allweddol.*

*Cyllidwyd y Cynllun Rheolaeth Cyrchfan yn rhannol gan Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru a Phartneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru a chefnogwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.*



Llun y clawr: Borth-y-Gest © Hawlfraint y Goron (2013) Croeso Cymru.

# 1. RHAGAIR

Mae hi'n bleser gennym gyflwyno Cynllun Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd i chi.

Mae hon yn ddogfen bwysig fydd yn sicrhau bod diwydiant twristiaeth Gwynedd yn parhau i ffynnu mewn byd sy'n gynyddol gystadleuol. Mae hi'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol gan archwilio'r cysylltiadau rhwng elfennau amrywiol ynghylch profiad ymwelwyr a phreswylwyr.

Mae cyfraniad twristiaeth i economi a chymunedau Gwynedd yn eithriadol o bwysig ac mae sicrhau twf y sector hwnnw yn ogystal â thwf ein heconomi leol yn hanfodol i sicrhau cynaladwyedd ein cymunedau yng Ngwynedd.

Hanfod pob cyrchfan yw ei phobl a'r cysylltiad pwysig hwnnw rhwng pobl, diwylliant a threftadaeth a'r amgylchedd lleol. Rydym yn hyderus y bydd y cynllun hwn yn gosod sylfaen glir a realistig ar gyfer rheoli a datblygu ein cyrchfannau yng Ngwynedd er budd pawb.

Ni all y cynllun hwn gael ei weithredu gan un corff yn unig. Mae'n dibynnu ar allu amrediad eang o asiantaethau a chyrff yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i gydweithio'n llwyddiannus i wireddu'r amcanion a'r blaenoriaethau.

Hyderwn y byddwch yn croesawu Cynllun Rheolaeth Cyrchfan Twristiaeth Gwynedd fel cam pwysig ymlaen wrth i ni gydweithio i sicrhau'r profiad gorau i ymwelwyr a phobl leol.

Ein nod yw datblygu cyrchfan rhyngwladol unigryw y gall pawb fod yn falch ohoni yma yng Ngwynedd – edrychwn ymlaen at weithio gyda chi er mwyn cyflawni'r amcan hon.

**Cyng. John Wynn Jones**
Aelod Cabinet Economi a Chymuned
Cyngor Gwynedd

**Anwen Jones**
Cadeirydd Is-Grŵp
Twristiaeth, Partneriaeth Economaidd Gwynedd

## 2. CYFLWYNIAD

Mae Gwynedd yn sir gyfoethog ac amrywiol o ran ei harddwch naturiol a'i thirweddau dramatig, o gopa'r Wyddfa i draethau penrhyn Llŷn a Meirionnydd, a'r cefn gwlad trawiadol a byw rhyngddyn nhw.

Yn ôl ffigyrau Cyngor Gwynedd, yn 2011, amcangyfrifwyd fod twristiaeth werth tua £917 miliwn i economi'r sir, gan gynnal tua 16,000 o swyddi, a 80% o'r rheiny yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol ym maes twristiaeth. Mae dros 7 miliwn o bobl yn ymweld â Gwynedd bob blwyddyn, gyda thros 21 miliwn o ddiwrnodau twristiaeth, gan gynnwys tua 18 miliwn o arosiadau dros nos (*ffynhonnell: Adolygiad Data Archwilio Rheoli Cyrchfan a Marchnata Gwynedd 2012*).

Mae rheoli cyrchfan yn ymwneud ag ystyried y darlun llawn, nid dim ond rhai elfennau ohono. O ran yr ymwelydd, mae eu profiad o'u gwyliau yn dod dan ddylanwad popeth sy'n digwydd yn ystod eu hymweliad, gan gynnwys yr holl weithgareddau a gwasanaethau maen nhw'n dod i gysylltiad â nhw, cyfforddusrwydd eu llety, natur gyfeillgar y croeso, ansawdd y bwyd a glanweithdra mannau cyhoeddus, ynghyd â'r atyniadau a'r gweithgareddau sydd ar gael.

Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan yn amlinellu gweledigaeth eang ar gyfer y dyfodol, gan archwilio'r cysylltiadau rhwng elfennau amrywiol ynghylch profiad ymwelwyr a phreswylwyr, a mapio cyfeiriad cyffredin cadarnhaol. Mae'r cynllun rheoli cyrchfannau hwn yn rhoi sylw i'r cyfnod hyd at 2020, ac mae'n cynnwys cynllun gweithredu integredig sy'n treiglo dros dair blynedd, ac sy'n galluogi pawb sy'n ymwneud â thwristiaeth yng Ngwynedd i chwarae eu rhan effeithiol mewn cyflawni profiad o safon sy'n gwneud cyfiawnder llawn â godidowgrwydd a mawredd y rhan hardd hon o Gymru. Mae'n ymwneud â phob agwedd ar brofiad yr ymwelwyr, o'r camau cyn ymweld a phenderfynu dod yma, i'r ymweliad ei hun a'r daith adref, gan gynnwys yr argraffiadau a adawyd arnyn nhw.

Mae'r cynllun hwn yn gysylltiedig â ***Twristiaeth 2020***, Strategaeth Llywodraeth Cymru ar Dwristiaeth 2013 -2020, sy'n pwysleisio pwysigrwydd twristiaeth awyr agored, yr amgylchedd, diwylliant a digwyddiadau, ynghyd â hyrwyddo Cymru i drigolion Cymru. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi arwyddocâd adeiladu lleoedd, gan gynnwys rheoli cyrchfan, pennu blaenoriaethau strategol, cefnogi adfywio a sicrhau profiadau dilys a ffyrdd cynaliadwy o fyw.

Y weledigaeth sy'n sylfaen i Gynllun Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd yw:

> ***Gwynedd fel cyrchfan ymwelwyr integredig o'r safon uchaf, sy'n cael ei gwerthfawrogi am ei thirweddau arbennig a byd-enwog, ei amgylchedd adeiledig trawiadol a'i diwylliant Cymreig unigryw.***

Prif nodau Cynllun Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd yw:

- ymestyn y tymor twristiaeth,
- cynyddu faint mae ymwelwyr yn ei wario,
- gwella ansawdd profiad ymwelwyr,
- gwella integreiddio twristiaeth ag agweddau eraill ar fywyd,
- gwella'r amgylchedd naturiol, adeiledig a diwylliannol,
- meithrin a chynnal isadeiledd a mwynderau cyhoeddus o safon,
- darparu swyddi sy'n talu'n dda drwy'r flwyddyn gyfan a datblygu sgiliau.

## 3. CYD-DESTUN A CHEFNDIR

### Y darlun cenedlaethol

Mae twristiaeth yng Nghymru yn flaenoriaeth ac yn gyfrifoldeb i nifer o sefydliadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn rhoi cryn flaenoriaeth i ddatblygu gweithgarwch twristiaeth a marchnadoedd arbenigol, a sicrhau'r fantais orau bosibl o ddigwyddiadau mawr yn ein lleoliadau amlycaf. Mae hefyd am hyrwyddo Cymru fel cyrchfan drwy gynnig cyfleusterau twristiaeth o safon uchel a gweithio i ymestyn y tymor ymwelwyr a'r manteision cysylltiedig. Nodir yn ogystal y nod o ddod o hyd i gyfleoedd cyllid i wella'r seilwaith a'r cynhyrchion twristiaeth yng Nghymru ac i gefnogi buddsoddiad mewn hyfforddi a rheoli staff i gefnogi diwydiant o safon uchel.

Yn ychwanegol at y strategaeth genedlaethol ar dwristiaeth, ***Twristiaeth 2020***, mae **Llywodraeth Cymru** hefyd wedi cyhoeddi ei strategaeth newydd ar adfywio yn ddiweddar, dan y teitl ***Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid***, sy'n cydnabod *bod yr amgylchedd hanesyddol yn gaffaeliad arbennig sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd ac at lewyrch economaidd. Mae ganddo gryn gyfraniad i'w wneud ym maes adfywio, gan gynnwys: asedau ffisegol, unigrywiaeth leol ac ymdeimlad o le sy'n clymu cymunedau at ei gilydd ac sy'n rhoi hyder ac ymdeimlad o berthyn, ac atyniadau i ymwelwyr*.

Mae Croeso Cymru wedi herio pob awdurdod lleol yng Nghymru i ddatblygu cynllun rheoli cyrchfan i fynd i'r afael â materion cydnabyddedig cynaladwyedd, ansawdd, awydd i gystadlu a phartneriaethau o fewn y diwydiant twristiaeth.

### Y darlun rhanbarthol a lleol

Ar y lefel ranbarthol yng Ngwynedd, mae Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru a Phartneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru yn cefnogi'r broses ac yn rhan flaenllaw o'r gwaith datblygu.

Mae ***Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru 2010 – 2015*** yn nodi her ddeublyg:

- *Darparu isadeiledd a chynnyrch twristiaeth sy'n cyfateb ag ansawdd ac apêl asedau naturiol y rhanbarth, a*
- *gwneud ein cynulleidfa botensial yn fwy ymwybodol o rinweddau arbennig Gogledd Cymru, a'r hyn sydd ganddo i'w gynnig.*

Mae ***Strategaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru***, sy'n cynnwys Meirionnydd, yn cynnig fframwaith i gefnogi'r sector dwristiaeth yn y rhanbarth i wneud y mwyaf o botensial y diwydiant er budd busnesau a chymunedau lleol. Mae'r strategaeth yn nodi'r canlynol fel rhai o'i blaenoriaethau strategol:

- *Darparu'r rhwydweithiau priodol a chyrchfannau, cyfleusterau a gwasanaethau cynaliadwy, nodweddiadol o safon uchel, fydd yn annog mwy o ymwelwyr i ymweld trwy'r flwyddyn a thrwy hynny annog twf yn yr economi ymwelwyr;*
- *I annog rhagor o bobl leol i ddilyn a datblygu gyrfaoedd gwerth chweil yn y diwydiant twristiaeth.*

Mae ***Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri 2010 – 15*** yn nodi bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymrwymedig *i wella cynaliadwyedd twristiaeth, fel y sefydlwyd mewn strategaethau rhanbarthol, gan wella sgiliau ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a chyfathrebu egwyddorion cynaliadwyedd i fusnesau twristiaeth ac ymwelwyr.*

Yng **Nghynllun Strategol** newydd **Cyngor Gwynedd** mae blaenoriaeth i weithgareddau sy'n atgyfnerthu gwytnwch busnesau a chadw buddiannau economaidd yn lleol, gan wella mynediad at waith a goresgyn rhwystrau. Mae'n cyfeirio'n benodol at fanteisio ar ein cryfderau, yr agenda gwledig a rhoi blaenoriaeth i gwsmeriaid.

Mae Partneriaeth Economaidd Gwynedd (PEG) yn gorff aelodaeth agored a chynhwysol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Gofynnwyd i is-grŵp twristiaeth PEG oruchwylio rheoli cyrchfan yng Ngwynedd, i osod nodau ac amcanion strategol tymor hir a gweithredu'r cynllun gwaith.

**Cynnig a chynnyrch twristiaeth**
Gellir gweld dadansoddiad llawn o'r canlynol yn **Atodiad A**.

- **Atyniadau ymwelwyr**

Mae Gwynedd yn gartref i atyniadau naturiol a threftadol eiconig gan gynnwys yr Wyddfa, Parc Cenedlaethol Eryri, Ardal a ddynodwyd yn un o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), un o rannau helaethaf Lwybr Arfordir Cymru, traethau a marinas banner las, coedwig fwyaf Gogledd Cymru, dros 100 o lynnoedd, dwy safle Treftadaeth y Byd ynghyd a Biosffer Dyfi. Mae chwareli llechi Gwynedd hefyd ar restr fer y Deyrnas Unedig ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd.

Mae'r ardal yn rhan hanfodol o gadarnle'r Gymraeg, gyda thros 69% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Dau o sectorau cryfaf y sir yw'r sectorau awyr agored a threftadaeth ac mae dau o ddeg atyniad gorau Cymru sy'n codi tâl mynediad wedi eu lleoli yn y sir sef Portmeirion a Chastell Caernarfon, sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am dros 431,000 o ymwelwyr yn 2011.

Mae tua 170 o atyniadau ymwelwyr wedi eu lleoli yn y sir ac mae gan Wynedd amrywiaeth eang o dafarndai, bwytai, theatrau a chyfleusterau hamdden o safon, ac mae'r ardal yn gartref i dros 200 o ddarparwyr gweithgareddau awyr agored.

Mae dau gonsortiwm arwyddocaol yn mynd ati i hyrwyddo atyniadau yn yr ardal sef Deg Atyniad Gorau Gogledd Cymru ac Atyniadau Eryri.

- **Llety**

Yn ôl Arolwg 2011 Gwynedd o Leoedd Cysgu, roedd 78% o'i 125,000 o leoedd cysgu i ymwelwyr yn y sector carafannau a gwersylla, tua 13% yn y sector hunanarlwyo, dros 6% mewn llety â gwasanaeth a'r gweddill mewn ffurfiau eraill o lety. O ddadansoddiad STEAM 2011 o leoedd cysgu yng Ngogledd Cymru gyfan, roedd 67% mewn carafannau a gwersylla, 11% mewn hunanarlwyo a 12% mewn llety â gwasanaeth (mae STEAM yn fodel ar gyfer asesu tuedd, cyfaint a gwerth gweithgareddau twristiaeth).

Mae'r sector llety â gwasanaeth yn cael ei gynrychioli'n llai amlwg yn Nwyfor (11.9%) na rhannau eraill o'r sir, h.y. Arfon (27.8%) a Meirionnydd (22.6%).

Nifer isel iawn o'r llety yng Ngwynedd sydd wedi eu graddio gan Groeso Cymru - dim ond 26%. Mae hyn yn awgrymu bod angen cynyddu nifer ac ansawdd llety â gwasanaeth mewn rhai rhannau o'r sir, o bosibl, yn enwedig lle mae galw ychwanegol yn cael ei gynhyrchu gan ddatblygu cyfleusterau newydd arwyddocaol fel Plas Heli ym Mhwllheli.

- **Gweithgareddau ymwelwyr**

Mae Gwynedd yn cynnwys nifer o ganolfannau gweithgareddau cenedlaethol enwog ac mae nifer o ganolfannau rhagoriaeth newydd yn cael eu datblygu er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd y sector gweithgareddau i'r sir. E.e. Canolfan Chwaraeon Dŵr Cenedlaethol Plas Menai, Canolfan Dŵr Gwyn Tryweryn, a Pharc Coedwig a Chanolfan Beicio Mynydd Coed-y-Brenin, Canolfan Ragoriaeth Eryri, Plas Heli – Academi Hwylio Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau Pwllheli a Chanolfan Ragoriaeth Twristiaeth Arfordirol Aberdaron.

Yn yr un modd ag atyniadau, mae rhai o'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd yn ymwneud â'r awyr agored ac â threftadaeth yr ardal. Yn ôl data diweddar gan Gyngor Gwynedd, cerdded yw'r gweithgaredd gwyliau gwledig mwyaf poblogaidd o bell ffordd, gan hawlio siâr o 31%, gyda beicio mynydd yn dilyn hynny ar 16%, antur ac aml-weithgareddau ar 13% a gweithgareddau dŵr ar 12%. Roedd dringo'n cyfrif am 10% o weithgareddau, ac yna bywyd gwyllt a gwylio adar ar 8% a marchogaeth ar 5%.

- **Atyniadau diwylliannol**

Yn ychwanegol at atyniadau hanesyddol niferus yr ardal, mae ganddi ganolfannau diwylliannol fel Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, amgueddfeydd, orielau a chanolfannau diwylliannol lleol, a'r ganolfan celfyddydau perfformio ac arloesi newydd PONTIO, sy'n werth £44 miliwn, ym Mangor, a fydd yn agor yn 2014.

- **Canolfannau cynadledda**

Mae gan Wynedd gyfleusterau rhagorol ar gyfer cynadledda a gall twristiaeth cynadleddau fod yn ffordd effeithiol o ddenu ymwelwyr busnes a darparu cyfleusterau ar adegau gwahanol o'r flwyddyn. Gellir cyfuno twristiaeth gynadleddau hefyd â thwristiaeth gweithgareddau o ran cyrsiau hyfforddi rheolwyr ac ymarferion meithrin tîm.

- **Digwyddiadau**

Mae Gwynedd wedi arddangos ei allu i gynnal amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a gwyliau, a llawer mwy o ddigwyddiadau lleol.

Mae gwyliau fel Wakestock yn Abersoch a Gŵyl Rhif 6 ym Mhortmeirion wedi bod yn hynod lwyddiannus, ac mae digwyddiadau chwaraeon fel Marathon Eryri, Ras yr Wyddfa ac Etape Eryri yn parhau i ddenu nifer o athletwyr cenedlaethol a rhyngwladol i'r ardal, gan gyfrannu dros £5 miliwn at yr economi leol yn ystod 2012-13.

Mae Academi Hwylio Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau ym Mhwllheli yn cynnal nifer o ddigwyddiadau rhyngwladol sy'n helpu i godi proffil yr ardal yn rhyngwladol. Yn ychwanegol, mae digwyddiadau a gwyliau lleol fel ffeiriau a sioeau pentrefi, datganiadau wythnosol gan gorau a chyngherddau yn cynnig profiad go iawn o fywyd diwylliannol. Gall digwyddiadau fod yn ffordd arwyddocaol o ddenu ymwelwyr am resymau penodol a chynhyrchu twristiaeth o amgylch y flwyddyn i roi hwb i'r economi.

- **Datblygiadau eraill**

Mae mentrau perthnasol eraill yn cynnwys prosiectau Ein Treftadaeth a Thywysogion Gwynedd Cadw, prosiect Cynllun Datblygu Gwledig Profi Gwynedd, buddsoddiad diweddar yn y 300km o Lwybr Arfordir Cymru yng Ngwynedd, Prosiect Twristiaeth Awyr Agored INTERREG, rhaglen Cymunedau a Natur Cyfoeth Naturiol Cymru, buddsoddiadau sylweddol yn Ardal Adfywio Strategol Môn a Menai a Blaenau Ffestiniog, ynghyd â Phrosiect Cymunedau Arfordirol y Moroedd Gwyrdd.

**Proffil a chymhelliant ymwelwyr**
Gellir gweld dadansoddiad llawn o'r manylion hyn yn **Atodiad B**.

Yn ôl Arolwg Ymwelwyr Gwynedd 2009, nododd y cyfrannau a ganlyn o ymwelwyr eu prif resymau dros ymweld â Gwynedd fel:

- Golygfa/tirwedd (54%),
- Arfordir (48%),
- Ymweliad blaenorol (44%),
- Heddwch a thawelwch (35%),
- Gweld golygfeydd/atyniadau (28%).

Dywedodd 93% o ymwelwyr y bydden nhw'n dychwelyd i Wynedd a 78% y bydden nhw'n argymell i eraill ymweld â'r ardal.

Mae proffil oedran ymwelwyr â Gwynedd yn debyg i Gymru yn gyffredinol, yn yr ystyr bod ymwelwyr yn tueddu i fod yn hŷn, yn hytrach nag yn iau – "canol oed ifanc". Serch hynny, roedd ychydig yn llai o rai dros 55 oed yng Ngwynedd (36% o'i gymharu â 42% ar gyfartaledd) ac ychydig yn fwy o rai rhwng 35 a 44 oed (26% o'i gymharu â 22% yng Ngogledd Cymru /19% yng Nghymru gyfan.

Mae proffil demograffig ymwelwyr â Gwynedd yn adlewyrchu ymwelwyr â Gogledd Cymru, h.y. ABC1 (62%) C2DE (36%).

Nid yw'n synod bod math y gwyliau a gymerir gan y rhai sy'n ymweld â Gwynedd yn adlewyrchu'r duedd ar gyfer Gogledd Cymru gyfan:

- Seibiant byr (38%),
- Prif wyliau (36%),
- Gwyliau eilaidd (26%).

Mae gan Wynedd ddibyniaeth anghymesur ar lety heb wasanaeth (86% o'r stoc gwelyau), hyd yn oed o gymharu'r sir â gogledd Cymru gyfan. Gan fod ymwelwyr tramor yn aros mewn llety â gwasanaeth yn bennaf mae'r cynnyrch llety presennol i dwristiaid yng Ngwynedd yn cynnig ei hun yn well i ymwelwyr domestig yn hytrach na rhai rhyngwladol.

Yn yr un modd â Chymru gyfan, mae ymwelwyr rhyngwladol yn cynrychioli canran fechan o'r holl ymwelwyr. Mae ymwelwyr domestig o'r Deyrnas Unedig – yn enwedig ymwelwyr o Loegr, yn cynrychioli'r farchnad fwyaf i Wynedd o bell ffordd, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol y gellir ei ragweld.



Dolgellau

## 4. YMGYNGHORIAD

Rhan allweddol o ddatblygu'r Cynllun Rheolaeth Cyrchfan hwn oedd ymgynghori â'r prif sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac unigolion sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â datblygu a darparu ar gyfer twristiaid yng Ngwynedd. Gwnaed hyn mewn dwy ffordd wahanol.

a) **Arolwg Busnes ar-lein** (canlyniadau i'w gweld yn **Atodiad C**).

Yn gyffredinol, roedd yr arolwg busnes yn nodi nifer o faterion craidd a meysydd i'w gwella. Y prif faterion a godwyd oedd:

- ffyrdd, parcio a gwasanaethau cyhoeddus eraill,
- angen am ragor o weithredu ac ymgysylltu ar lefel leol e.e. darparu gwasanaethau, cymorth i fusnesau, llif gwybodaeth, marchnata a chymorth hyrwyddo.

Mae nifer o'r arsylwadau ac argymhellion hyn wedi bod yn sylfaen i'r cynllun gweithredu neu wedi cael eu hymgorffori ynddo – camau a ddylai gyfoethogi profiad ymwelwyr a bywyd trigolion Gwynedd yr un pryd.

b) **Seminar a gweithdy undydd ym Mhlas Tan y Bwlch**

Cynhaliwyd digwyddiad yng Nghanolfan Astudio'r Parc Cenedlaethol ym Maentwrog, a'r brif nod oedd egluro'r broses cynllunio rheoli cyrchfan, a pham ei bod yn bwysig ymgysylltu â rhan ddeiliaid allweddol ar gyfnod cynnar.

Mae'r prif bwyntiau a gafodd sylw yn y cyflwyniadau yn ogystal â phrif ganfyddiadau'r trafodaethau wedi cael eu cynnwys yn **Atodiad Ch**.



Castell Dolbadarn, Llanberis

## 5. RHAI MATERION ALLWEDDOL

Gellir crynhoi sefyllfa gyfredol Gwynedd yn y dadansoddiad SWOT a ganlyn, sydd wedi cael ei seilio ar y broses ymgynghori a ddisgrifir yn adran 4 uchod.

| CRYFDERAU | GWENDIDAU |
|---|---|
| • Tirweddau ac arfordir hyfryd o safon ryngwladol<br>• Amgylchedd adeiledig a nodweddion hanesyddol trawiadol<br>• Diwylliant unigryw a hygyrch<br>• Yn agos at farchnadoedd domestig<br>• Amrywiaeth eang o atyniadau i ymwelwyr<br>• Cyflenwad ac amrywiaeth dda o lety gwyliau<br>• Cyrchfan ar gyfer gweithgareddau neu wyliau tawel | • Natur dymhorol y gweithgareddau i dwristiaid<br>• Angen cyfleusterau gwell i dwristiaid a’r cyhoedd<br>• Dibyniaeth ar y sector hunanarlwyo cost isel<br>• Diffyg llety â gwasanaeth o safon uchel<br>• Ychydig iawn o atyniadau mawr i ymwelwyr ym mhob tywydd<br>• Gwendid cymharol y ddarpariaeth manwerthu |
| **CYFLEON** | **BYGYTHIADAU** |
| • Cydweithio gwell rhwng sectorau<br>• Datblygu ymhellach dwristiaeth awyr agored o amgylch y flwyddyn<br>• Datblygu llety gwestai o safon<br>• Datblygu twristiaeth yn gysylltiedig â chanolfannau rhagoriaeth<br>• Twf mewn twristiaeth treftadaeth a diwylliannol<br>• Siopa o safon yn seiliedig ar gynnych lleol<br>• Amrywiaeth ehangach o ddigwyddiadau i ymwelwyr a phreswylwyr<br>• Rhagor o farchnata wedi’i gydlynu | • Cyrchfannau gwledig ac awyr agored eraill i dwristiaid<br>• Rhagor o farchnata ffyrnig ac effeithiol gan ardaloedd eraill<br>• Dirywiad economaidd ardaloedd gwledig a threfi marchnad<br>• Dirywiad mewn sgiliau perthnasol ac ansawdd y croeso i ymwelwyr<br>• Dirywiad yn ansawdd mannau cyhoeddus |

**Datblygu llety**
Mae'r amrywiaeth gyfyngedig o lety â gwasanaeth (yn enwedig gwestai o safon) yn cyfyngu ar gyfleoedd i ymestyn y tymor drwy wyliau byr; ac nid yw'r amrywiaeth gyfyngedig o atyniadau dan do a gweithgareddau min nos yn cynnig eu hunain i dwf yn y sectorau teuluoedd a phobl ifanc. Serch hynny, mae denu buddsoddiad yn anodd yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

**Datblygu sgiliau**
Mae bodlonrwydd ymwelwyr yng Ngwynedd ychydig yn is na Chymru gyda'i gilydd, gyda lefel o 53% yng Ngwynedd a 58% yng Nghymru (ffynhonnell : Adolygiad Data Archwilio Rheoli Cyrchfan a Marchnata Gwynedd 2012). Er nad yw hyn yn neilltuol o arwyddocaol yn ystadegol, a yw hyn o ganlyniad i broblemau sylfaenol o ran sgiliau ac agwedd gofal cwsmer?Mae canfod ffyrdd o roi sylw i anghenion recriwtio, hyfforddiant, a chadw staff allweddol (lle mae hynny'n bosibl) yn gam cyntaf tuag at wella sgiliau gofal cwsmer.

**Denu buddsoddwyr**
Nid yw'r hinsawdd economaidd sydd ohoni yn cynnig ei hunan ar gyfer denu buddsoddiadau, yn enwedig gan fod enillion ar fuddsoddiadau yn gallu bod yn fwy tymor hir, fel yn y sector twristiaeth. Serch hynny, o gofio am amrywiaeth gyfyngedig Gwynedd o lety â gwasanaeth, a'r twf parhaus tebygol yn y math o ymwelwyr sy'n gweld Gwynedd fel man atyniadol, dylid cadw llygad barcud ar ddenu buddsoddiad mewn llety â gwasanaeth o safon – a gwestai, yn enwedig.

Gallai cynnydd yn nifer y llety â gwasanaeth o safon helpu Gwynedd i dyfu ei sector twristiaeth drwy ddenu ymwelwyr o ran o'r farchnad sydd ar hyn o bryd yn tanberfformio yng Ngwynedd, o'i gymharu â'i berfformiad mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

**Siopa: Cyfle nad yw'n cael ei werthfawrogi'n ddigonol?**
Un maes lle mae Gwynedd yn "methu" ateb bodlonrwydd ymwelwyr â gogledd Cymru gyfan yw siopa: Dim ond 34% o ymwelwyr ledled Gwynedd roddodd sylwadau cadarnhaol, o'i gymharu â chyfartaledd o 41% yng ngogledd Cymru gyfan. Roedd 13% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg busnes wedi nodi'r angen am well siopau a chyfleoedd siopa (ffynhonnell: Adolygiad Data Archwilio Rheoli Cyrchfan a Marchnata Gwynedd 2012).

Yn fwy arwyddocaol, o ran yr effaith economaidd, ac o gofio bod siopa yn cynrychioli'r eitem unigol fwyaf o wariant gan ymwelwyr i Wynedd, yn ogystal â buddiolwr mwyaf cyflogaeth a gynhyrchir gan ymwelwyr yn ôl Adroddiad STEAM 2011, mae achos cryf dros wella'r ddarpariaeth siopa yng Ngwynedd.

## 6. MARCHNATA

Mae Gwynedd fel ardal cyrchfan twristiaeth yn cael ei marchnata dan faner swyddogol ardal marchnata Eryri Mynyddoedd a Môr. Mae hwn yn frand addas i'r ardal ehangach, yn cyfleu nodwedd arbennig yr ardal ac yn effeithiol.

Sefydlwyd partneriaeth ardal marchnata Eryri Mynyddoedd a Môr yn 1995 sef ardal Gwynedd gyfan a Chonwy wledig (yr ardal i'r de o'r A55) a Hiraethog. Caiff yr ardal ei marchnata ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Chonwy.

Mae'r gweithgaredd marchnata presennol yn cynnwys cynhyrchu taflen hyrwyddo flynyddol a dosbarthir 100,000 rhifyn o lyfryn Eryri Mynyddoedd a Môr. Yn ogystal cynhyrchir taflenni arbenigol, e.e. gweithgareddau a physgota.

Rhoddir pwyslais mawr ar gyfryngau cymdeithasol a'r wefan er mwyn hyrwyddo gweddill y cynnyrch twristiaeth yn yr ardal. Croesawir dros 500,000 mil o ymweliadau i'r wefan. Mae'r cyfrwng digidol yma yn parhau i gynnig cyfleoedd gwych i farchnata'r ardal dros y tair blynedd nesaf.

Wedi sylfaenu ar brofiadau blaenorol byddwn yn edrych am gyfleoedd newydd i weithgaredd solus mewn partneriaeth gyda'r sector cyhoeddus a phreifat.

Mae gweithgaredd marchnata Gwynedd yn eistedd o fewn cyd-destun marchnata Cymru gyfan, yn enwedig pan ystyrier y farchnad dramor. Bydd rhaid siapio'r cynnig er mwyn efelychu a manteisio ar y platfform marchnata cenedlaethol.

Mae cydweithio gyda phartneriaid allweddol hefyd yn hanfodol wrth hyrwyddo Gwynedd yn effeithiol fel cyrchfan dydd, gwyliau byr a phrif wyliau.

**Apêl Gwynedd yn y Farchnad**
Mae Gwynedd yn cynnig cymysgedd atyniadol o natur, diwylliant, treftadaeth a gweithgareddau, gan ganolbwyntio ar atyniadau twristiaeth gref, eiconig. Mae dadansoddiad mwy cyflawn o apêl yr ardal yn **Atodiad D**, ond fel enghraifft gellir nodi:

Natur:

- Yr Wyddfa, a nifer sylweddol o fynyddoedd uchaf Eryri,
- 300 cilometr o arfordir, llawer ohono'n cynnwys Llwybr Arfordir Cymru,
- Awgrymodd *Evaluation of UK Consumer Campaigns* gan Groeso Cymru yn Ionawr 2009 mai Gwynedd – ac Eryri yn benodol – oedd y rhan o Gymru a ddenodd y mwyaf o ymwelwyr o blith yr ymatebwyr hyn (roedd 27% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg wedi ymweld ag Eryri).

Diwylliant / Treftadaeth:

- Rhan allweddol o gadarnle'r Gymraeg, lle mae 69% yn siarad Cymraeg. Roedd 68% o ymwelwyr â Gwynedd yn ystyried hyn yn ased.
- Treftadaeth nodedig, yn dyddio o gyfnod cynhanes drwy gyfnod y Rhufeiniaid, ôl ddiwydiannol hyd heddiw,
- Adeiladau sylweddol fel Safleoedd Treftadaeth y Byd Cestyll Caernarfon a Harlech, a rhyfeddodau pensaernïol mwy diweddar fel Castell Penrhyn a Phortmeirion.

Gweithgareddau:

- Dros 200 o fusnesion awyr agored wedi sefydlu yn yr ardal,
- Canolfannau Rhagoriaeth Cenedlaethol mewn gweithgareddau Awyr Agored,
- Golff – 16 cwrs golff a chyrsiau links a phencampwriaeth.
  Enwir cyrsiau Aberdyfi, Royal St. Davids Harlech a Nefyn yn rhestr cyrsiau gorau'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon y cylchgrawn '*Golf Monthly*'.

Mae ***Gweledigaeth a Chynllun Gweithredu Sector Awyr Agored Gogledd Cymru 2009 - 2015*** yn amlygu cryfderau cystadleuol arwyddocaol Gwynedd yn y sector gweithgareddau fel a ganlyn:

> *Y crynhoad dwys o ganolfannau gweithgareddau awyr agored, darparwyr gweithgareddau arbenigol, hyfforddwyr ac arweinwyr sy'n gwneud Gwynedd yn gyrchfan sy'n gallu darparu cyfleoedd o ansawdd uchel yn gyson mewn amrywiaeth drawiadol o weithgareddau.*

Mae gwaith diweddar gan **Blue Sail** ar gyfer **Prosiect Twristiaeth Awyr Agored INTERREG Cymru-Iwerddon** yn gosod gogledd Cymru ymysg y lleoedd gorau yn Ewrop ac yn her o ddifrif i leoedd sy'n cael eu hystyried fel y gorau yn y byd yn y maes, fel Seland Newydd. Maen nhw'n ategu hynny drwy ddweud:

> *Rydym yn credu mai'r prif gyfle i Gymru yw hyrwyddo Conwy a Gwynedd fel un gyrchfan ar gyfer twristiaeth awyr agored; brandio, ail-leoli a phecynnu'r cynnig ar gyfer marchnad newydd o rai sy'n dechrau ymddiddori ac sydd eisiau blas ar weithgareddau, sef lle mae'r potensial am dwf; a pharhau i ysbrydoli a darparu ar gyfer y rhai sy'n frwd iawn drwy isadeiledd sgiliau, canolfannau, digwyddiadau ac ansawdd cynnig y gyrchfan.*

Mae argymhellion clir hefyd yn cael eu darparu ar gyfer datblygu'r sector awyr agored yng Ngwynedd a Chonwy.

**Ffocws Marchnata**

Ffocws marchnata Gwynedd fydd segmentau:

- "Anturiaethwyr Annibynnol" – y rhai hynny sy'n mentro y tu hwnt i gyrchfannau arferol, sy'n ceisio cael gwell dealltwriaeth o ardal, diwylliant a'i phobl,
- Ymwelydd dydd – o fewn siwrne' dwy awr,
- DU gwyliau byr – rhieni gyda phlant wedi gadael y cartref, cwplau, teuluoedd a rhai gyda diddordeb mewn gweithgareddau awyr agored,
- DU marchnad gwyliau cyfnod hwy – teuluoedd,
- Marchnadoedd dramor – diwylliant , treftadaeth, gweithgaredd.

Y Negeseuon marchnata fydd

- Tirwedd â golygfeydd dramatig o brydferth (mynyddoedd ac arfordir) a mannau atyniadol eraill ar yr iseldir,
- Tawelwch (yn debygol o ganolbwyntio'n fwy penodol ar 'bobl ganol oed ifanc' a'r rhai y mae eu plant wedi gadael cartref),
- Gweithgareddau llawn adrenalin (yn debygol o ganolbwyntio'n fwy penodol ar rai iau sy'n frwd dros anturio),

- Hygyrchedd (yn agos at brif gytrefi marchnad gogledd orllewin a chanolbarth Lloegr),
- Diwylliant a threftadaeth (adeiledig a naturiol),
- Y peth go iawn (pobl, diwylliant ac iaith).

**Sianelau Marchnata a hyrwyddo**

Y nod fydd hyrwyddo'r ardal fel cyrchfan trwy'r flwyddyn a denu ymwelwyr dydd a rhai sydd yn chwilio am wyliau byr neu brif wyliau.

Defnyddir negeseuon allweddol ac is-benawdau i ddatblygu llwyfannau marchnata i hyrwyddo'r ardal.

Bydd cynlluniau blynyddol yn cael eu datblygu i gyfathrebu'r prif negeseuon a thargedu'r amrywiol segmentau blaenoriaeth.



Aber Dwyryd a Portmeirion

## 7. BLAENORIAETHAU A CHYNLLUN GWEITHREDU

Er mwyn sicrhau llwyddiant Cynllun Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd bydd cydweithio efo rhan ddeiliaid allweddol yn yr ardal ac adnabod a meithrin eu swyddogaethau yn gynnar yn hanfodol.

Yn dilyn yr archwiliad rheoli cyrchfan a marchnata a wnaethpwyd yn flaenorol, a'i ddadansoddiadau, yn ogystal â'r broses ymgynghori mae meysydd cryf ar gyfer gweithredu wedi dod i'r amlwg.

O'r arolwg ar-lein a gynhaliwyd fel rhan o'r ymarfer hwn (**Atodiad C**) gellir crynhoi'r canlynol fel y prif faterion sydd angen sylw:

- Cyfleusterau gwell i ymwelwyr,
- Cyfleusterau cyhoeddus gwell e.e. uwch-strwythur ymwelwyr fel llety gwyliau a gweithgareddau penodol i elfennau'r isadeiledd, gan gynnwys ffyrdd a mannau cyhoeddus eraill),
- Atyniadau o safon uwch i ymwelwyr,
- Darpariaethau parcio,
- Gwasanaethau lleol gwell,
- Ymgysylltu cyfeillgar i dwristiaid,
- Gwell siopau a chyfleoedd siopa.

Mae hyn yn dynodi'r angen am ddull integredig sy'n mynd i'r afael â darparu a rheoli cyfleusterau i ymwelwyr a thrigolion lleol, neu mewn geiriau eraill, gwella bodlonrwydd ymwelwyr gan geisio gwella'r economi leol, yr amgylchedd ac ansawdd bywyd y gymuned leol.

Mae hyn yn galw am ddull sy'n:


- creu'r strwythurau iawn i sicrhau fod yr holl randdeiliaid yn cydweithio oddi fewn i'r strategaeth gytunedig,
- rhoi sylw i bob agwedd ar ansawdd profiad ymwelwyr yn y gadwyn gwerth twristiaeth, o ddelweddau a chyswllt cyn ymweliad, i archebu a gwybodaeth, y croeso cychwynnol a chyfeirio, ansawdd yr holl gyfleusterau, gwasanaethau ac isadeiledd, ffarwelio a chyswllt ar ôl ymweliad.
- Dilyn proses gylchol o reoli ansawdd sy'n cynnwys nodi anghenion, gosod safonau, cynnal gwelliannau, a monitro effeithiau ar ymwelwyr, pobl leol, mentrau twristiaeth a'r amgylchedd.

Mae'r diagram trosodd yn dangos y gadwyn gwerth twristiaeth sydd o fudd i bawb. Weithiau fe'i elwir yn economi gylchol, lle mae ymwelwyr a thrigolion lleol yn rhyngweithio o ran nwyddau a gwasanaethau lleol, llety, atyniadau, gweithgareddau a gwybodaeth, gyda gwariant ymwelwyr yn ddelfrydol yn dychwelyd i'r economi leol i ddatblygu cymunedau cynaliadwy ymhellach.

Bydd y dull systematig hwn yn sicrhau fod y prif faterion a nodir ar y cam hwn yn cael sylw clir ac yn cael eu hadolygu'n ysbeidiol yn sgil y cynllun gweithredu hwn, ei allbynnau a'i effeithiau dilynol.

Bydd Cynllun Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd yn rhoi sylw i:

- Ddelwedd Gwynedd fel cyrchfan wyliau a chyrchfan o safon,
- Realiti profiad ymwelwyr,
- Yr hollt rhwng sectorau'r farchnad a pherfformiad perthynol,
- Effeithiolrwydd ac enillion ar fuddsoddiadau gan y sectorau preifat a chyhoeddus.




**Cadwyn gwerth twristiaeth**

Bydd y Cynllun hefyd yn adolygu'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a'r bygythiadau ac yn ceisio ymateb iddynt mewn partneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cymysgedd a safonau llety,
- Y sector arlwyo,
- Atyniadau lleol ac isranbarthol,
- Gwybodaeth a dehongli.

Bydd gofynion isadeiledd (yn cynnwys holl amgylchedd adeiledig a naturiol yr ardal), yn derbyn sylw gan gynnwys:

- Parcio a darpariaeth rheoli traffig,
- Stryd-wedd,
- Arwyddion.

Bydd yr holl elfennau hyn yn cael eu hystyried wrth lunio'r cynllun gweithredu, a bydd nifer o allbynnau cytunedig a phenodol yn cael eu hamlinellu yn y cynllun hwnnw, wedi eu costio a'u blaenoriaethu, gyda chyrff arweiniol a graddfeydd amser tybiedig ynghlwm.

Yn eu tro, bydd yr allbynnau yn cyfrannu at y cynllun rheoli cyrchfan, gan gynnwys system fonitro a fydd yn sicrhau dull cydlynol o weithredu ac adolygu.

Bydd gweithio gyda systemau cytunedig yn helpu i sicrhau monitro allbynnau'n fanwl gywir a chyflwyno addasiadau lle bo'r angen i ddarparu profiad unedig i'r ymwelydd o'r diddordeb cychwynnol i ymadael ar ôl ymweld. Bydd hefyd yn rhoi adborth gwerthfawr i'r diwydiant a darparu system rhybudd cynnar ar gyfer unrhyw broblem sy'n wynebu ymwelwyr neu breswylwyr.

**Monitro**

Bydd system fonitro addas, gan ddefnyddio mesurau meintiol ac ansoddol, yn cael eu rhoi ar waith er mwyn mesur effeithiolrwydd y cynllun gweithredu a gweithgarwch marchnata cysylltiedig. Bydd yn cael ei seilio ar y System Dangosyddion Twristiaeth Ewropeaidd a ddatblygwyd yn ddiweddar i reoli cyrchfannau'n gynaliadwy.

Caiff arolygon eu cynnal i fesur effeithiolrwydd yr ymgyrchoedd marchnata amrywiol a ymgymerir â hwy. Caiff dulliau ansoddol eu defnyddio megis ymchwil gofal cwsmer, ymchwil boddhad cwsmer ac adborth gan weithredwyr. Bydd y rhain yn ein galluogi i fonitro effeithiolrwydd y cynllun rheolaeth cyrchfan ac adnabod meysydd o gynnydd a rhai sydd angen sylw.

**Ffynonellau posibl o gyllid i wireddu'r Cynllun Rheolaeth Cyrchfan**
Mae nifer o ffynonellau ariannu yn bodoli er mwyn gweithredu a gwireddu'r cynllun hwn. Gellir nodi'r canlynol fel rhai ffynonellau posib i'w harchwilio a'u targedu:

- Strategaeth Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid,
- Cyllid Ewropeaidd 2007 - 2013 a 2014 - 2020,
- Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd,
- Cynllun Cefnogi Buddsoddiad mewn Twristiaeth,
- Datblygu cynlluniau rhodd ymwelwyr,
- Cronfeydd y Loteri,
- Cyngor Celfyddydau Cymru.

**Datblygu'r cynllun gweithredu**
Mae'r fformat a ganlyn wedi cael ei gynnig ar gyfer strwythur y cynllun.

Ar sail y broses ymgynghori ac yn unol â Thwristiaeth 2020, prif benawdau gweithredu Cynllun Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd fydd:

- **YR AMGYLCHEDD**,
- **CYNNYRCH ALLWEDDOL**,*
- **ISADEILEDD**, **LLETY A GWASANAETHAU YMWELWYR**,
- **MARCHNATA**.

**Mae cynnyrch allweddol yn cynnwys awyr agored, diwylliant a threftadaeth, bwyd a digwyddiadau.*

Yn ychwanegol, bydd y cynllun yn cael ei rannu ymhellach i dair ardal yng Ngwynedd, sef Arfon, Dwyfor a Meirionnydd gyda'r 4 maes uchod yn cael sylw fesul ardal. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn cael ei gydlynu a'i dargedu'n agos yn unol â phynciau a lleoliad.

**Camau Nesaf**
Ni all y Cynllun Rheolaeth Cyrchfan hwn gael ei wireddu heb weithredu mewn partneriaeth a thrwy gydweithio gwirioneddol.


Bydd Is-Grŵp Twristiaeth Partneriaeth Economaidd Gwynedd yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu, gweithredu, monitro a gwireddu Cynllun Gweithredu'r Cynllun Rheolaeth Cyrchfan. Bydd yr Is-Grŵp hefyd yn gyfrifol am sicrhau cefnogaeth pob elfen o'r sector twristiaeth ar gyfer y Cynllun.

Bydd gweithrediad y Cynllun Rheolaeth Cyrchfan hwn a'i Gynllun Gweithredu yn cael ei arwain gan Wasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer Cyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Adrannau perthnasol Cyngor Gwynedd a chyrff a rhan ddeiliaid allweddol yng Ngwynedd.

# ATODIAD A

**Dadansoddiad llawn o gynnig a chynnyrch twristiaeth Gwynedd**

- **Llety**




**Ffigwr 1: Dadansoddiad o welyau yn ôl prif gategori**

Yn ôl Arolwg 2011 Gwynedd o Leoedd Cysgu, roedd 78% o'i 125,000 o leoedd cysgu i ymwelwyr yn y sector carafannau a gwersylla, tua 13% yn y sector hunanarlwyo, dros 6% mewn llety â gwasanaeth a'r gweddill mewn ffurfiau eraill o lety.

O ddadansoddiad STEAM 2011 o leoedd cysgu yng Ngogledd Cymru gyfan, roedd 67% mewn carafannau a gwersylla, 11% mewn hunanarlwyo a 12% mewn llety â gwasanaeth (mae STEAM yn fodel ar gyfer asesu tuedd, cyfaint a gwerth gweithgareddau twristiaeth).


Mae'r sector llety â gwasanaeth yn cael ei gynrychioli'n llai amlwg yn Nwyfor (11.9%) na rhannau eraill o'r sir, h.y. Arfon (27.8%) a Meirionnydd (22.6%).

Dim ond 26% o'r rhai a atebodd yr arolwg a noddodd eu bod nhw wedi cael eu graddio gan Groeso Cymru neu gyrff graddio eraill, sy'n golygu bod dros 74% heb gael eu graddio. Mae hyn yn awgrymu bod angen cynyddu cyfaint ac ansawdd llety â gwasanaeth mewn rhai rhannau o'r sir, o bosibl, yn enwedig lle mae galw ychwanegol yn cael ei gynhyrchu gan ddatblygu cyfleusterau newydd arwyddocaol fel Plas Heli ym Mhwllheli.

- **Gweithgareddau ymwelwyr**

Yn yr un modd ag atyniadau, mae rhai o'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd yn ymwneud â'r awyr agored ac â threftadaeth yr ardal. Yn ôl data diweddar gan Gyngor Gwynedd, cerdded yw'r gweithgaredd gwyliau gwledig mwyaf poblogaidd o bell ffordd, gan hawlio siâr o 31%, gyda beicio mynydd yn dilyn hynny ar 16%, antur ac aml-weithgareddau ar 13% a gweithgareddau dŵr ar 12%. Roedd dringo'n cyfrif am 10% o weithgareddau, ac yna bywyd gwyllt a gwylio adar ar 8% a marchogaeth ar 5%.

Mae Gwynedd hefyd yn cynnwys nifer o ganolfannau gweithgareddau enwog, fel Canolfan Chwaraeon Dŵr Cenedlaethol Plas Menai, Canolfan Dŵr Gwyn Tryweryn, a Pharc Coedwig a Chanolfan Beicio Mynydd Coed-y-Brenin. Y mae yma nifer o ganolfannau rhagoriaeth newydd, gan gynnwys Canolfan Ragoriaeth Eryri, sydd newydd gael ei sefydlu (***Eryri – un antur fawr***) ac sy'n canolbwyntio ar dde Eryri, Plas Heli – Academi Hwylio Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau ym Mhwllheli, a Chanolfan Ragoriaeth Twristiaeth Arfordirol wedi ei ganoli o amgylch Aberdaron.




**Ffigwr 2: Gweithgareddau awyr agored yn ôl math**

- **Atyniadau diwylliannol**

Yn ychwanegol at atyniadau hanesyddol niferus yr ardal, mae ganddi ganolfannau diwylliannol fel Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, amgueddfeydd, orielau a chanolfannau diwylliannol lleol, a'r ganolfan celfyddydau perfformio ac arloesi newydd PONTIO, sy'n werth £44 miliwn, ym Mangor, a fydd yn agor yn 2014.

- **Canolfannau cynadledda**

Yn ogystal â chyfleusterau rhagorol ym Mhrifysgol Bangor a cholegau eraill, mae canolfannau arbenigol fel Canolfan Astudio'r Parc Cenedlaethol ym Mhlas Tan y Bwlch a Chanolfan Iaith Genedlaethol Nant Gwrtheyrn ar gael fel lleoliadau cynadleddau, ynghyd â nifer o westai mwy o faint ledled y sir. Gall twristiaeth cynadleddau fod yn ffordd effeithiol o ddenu ymwelwyr busnes a darparu cyfleusterau ar adegau gwahanol o'r flwyddyn. Gellir cyfuno twristiaeth gynadleddau hefyd â thwristiaeth gweithgareddau o ran cyrsiau hyfforddi rheolwyr ac ymarferion meithrin tîm.

- **Digwyddiadau**


Mae Gwynedd wedi arddangos ei allu i gynnal amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a gwyliau, a llawer mwy o ddigwyddiadau lleol. Mae gwyliau fel Wakestock yn Abersoch a Gŵyl Rhif 6 ym Mhortmeirion wedi bod yn hynod lwyddiannus, ac mae digwyddiadau chwaraeon fel Marathon Eryri, Ras yr Wyddfa ac Etape Eryri yn parhau i ddenu nifer o athletwyr cenedlaethol a rhyngwladol i'r ardal, gan gyfrannu dros £5 miliwn at yr economi leol yn ystod 2012-13. Mae Academi Hwylio Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau ym Mhwllheli yn cynnig nifer o ddigwyddiadau rhyngwladol sy'n helpu i godi proffil yr ardal yn rhyngwladol. Yn ychwanegol, mae digwyddiadau a gwyliau lleol fel ffeiriau a sioeau pentrefi, datganiadau wythnosol gan gorau a chyngherddau yn cynnig profiad go iawn o fywyd diwylliannol. Gall digwyddiadau fod yn ffordd arwyddocaol o ddenu ymwelwyr am resymau penodol a chynhyrchu twristiaeth o amgylch y flwyddyn i roi hwb i'r economi.

- **Datblygiadau eraill**

Mae mentrau perthnasol eraill yn cynnwys prosiectau Ein Treftadaeth a Thywysogion Gwynedd Cadw, prosiect Cynllun Datblygu Gwledig Profi Gwynedd, buddsoddiad diweddar yn y 300km o Lwybr Arfordir Cymru yng Ngwynedd, Prosiect Twristiaeth Awyr Agored INTERREG, rhaglen Cymunedau a Natur Cyfoeth Naturiol Cymru, buddsoddiadau sylweddol yn Ardal Adfywio Strategol Môn a Menai a Blaenau Ffestiniog, ynghyd â Phrosiect Cymunedau Arfordirol y Moroedd Gwyrdd.

# ATODIAD B

## Proffil a chymhelliant ymwelwyr




**Ffigwr 3: Rhesymau dros ymweld â Gwynedd**

Yn ôl Arolwg Ymwelwyr Gwynedd 2009, nododd y cyfrannau a ganlyn o ymwelwyr eu prif resymau dros ymweld â Gwynedd fel:

- Golygfa / tirwedd (54%),
- Arfordir (48%),
- Ymweliad blaenorol (44%),
- Heddwch a thawelwch (35%),
- Gweld golygfeydd / atyniadau (28%).


Dywedodd 93% o ymwelwyr y bydden nhw'n dychwelyd i Wynedd a 78% y bydden nhw'n argymell i eraill ymweld â'r ardal.

Mae proffil oedran ymwelwyr â Gwynedd yn debyg i Gymru yn gyffredinol, yn yr ystyr bod ymwelwyr yn tueddu i fod yn hŷn, yn hytrach nag yn iau – "canol oed ifanc". Serch hynny, roedd ychydig yn llai o rai dros 55 oed yng Ngwynedd (36% o'i gymharu â 42% ar gyfartaledd) ac ychydig yn fwy o rai rhwng 35 a 44 oed (26% o'i gymharu â 22% yng Ngogledd Cymru / 19% yng Nghymru gyfan).

Mae proffil demograffig ymwelwyr â Gwynedd yn adlewyrchu ymwelwyr â Gogledd Cymru, h.y. ABC1 (62%) C2DE (36%)

Nid yw'n synod bod math y gwyliau a gymerir gan y rhai sy' ymweld â Gwynedd yn adlewyrchu'r duedd ar gyfer Gogledd Cymru gyfan:

- Seibiant byr (38%),
- Prif wyliau (36%),
- Gwyliau eilaidd (26%).




**Ffigwr 4: Mathau o wyliau yng Ngwynedd**

Mae gan Wynedd ddibyniaeth anghymesur ar lety heb wasanaeth (86% o'r stoc gwelyau), hyd yn oed o gymharu'r sir â gogledd Cymru gyfan. Gan fod ymwelwyr tramor yn aros mewn llety â gwasanaeth yn bennaf (yn enwedig gwestai a mannau gwely a brecwast), mae'r cynnyrch llety presennol i dwristiaid yng Ngwynedd yn cynnig ei hun yn well i ymwelwyr domestig yn hytrach na rhai rhyngwladol.

Yn yr un modd â Chymru gyfan, mae ymwelwyr rhyngwladol yn cynrychioli canran fechan o'r holl ymwelwyr. Mae ymwelwyr domestig o'r Deyrnas Unedig – yn enwedig ymwelwyr o Loegr, yn cynrychioli'r farchnad fwyaf i Wynedd o bell ffordd, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol y gellir ei ragweld.

Prif farchnad Gwynedd i ymwelwyr yw'r bobl sy'n byw rhwng 1.5-3 awr o daith i'r sir, yng nghytrefi gogledd orllewin a chanolbarth Lloegr o gwmpas Lerpwl, Manceinion a Birmingham – h.y. domestig yn hytrach na rhyngwladol.

**Tabl 1**

| **Dadansoddiad yn ôl sector o wariant: (miliynau o bunnoedd) 2011** | |
|---|---|
| Refeniw Uniongyrchol: | |
| Siopa | 192.77 |
| Llety | 102.38 |
| Bwyd a diod | 143.80 |
| Trafnidiaeth | 72.88 |
| Hamdden | 59.31 |
| **Cyfanswm y refeniw uniongyrchol** | **571.15** |
| **Gwariant uniongyrchol** | **230.72** |
| TAW | 114.23 |
| **CYFANSWM** | **916.09** |

**Tabl 2**

| **Sectorau lle cefnogir Cyflogaeth: (cyfystyr â llawn amser) 2011** | |
|---|---|
| Cyflogaeth Uniongyrchol: | |
| Siopa | 3757 |
| Llety | 3653 |
| Bwyd a diod | 3074 |
| Hamdden | 1539 |
| Trafnidiaeth | 696 |
| **Cyfanswm y gyflogaeth uniongyrchol** | **12719** |
| **Cyflogaeth anuniongyrchol** | **3187** |
| **CYFANSWM** | **15906** |

**Ffigwr 5: Data STEAM Gwynedd 2011**

# ATODIAD C

## Canlyniadau arolwg busnes surveymonkey

Rhoddir y canlyniadau am yr ymatebion a roddir amlaf, a rhestrir y deg ateb mwyaf poblogaidd. Mae rhai cyfansymiau yn fwy na 100% pan roddwyd sawl ateb i gwestiynau penodol.

***O ble daw'r rhan fwyaf o'ch ymwelwyr?***

| | |
|---|---|
| Lloegr | 39% |
| Cymru | 29% |
| Manceinion | 21% |
| Swydd Caer | 21% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 17% |
| Ewrop | 13% |
| Yr Almaen | 13% |
| Awstralia | 9% |
| De Ddwyrain Lloegr | 6% |
| Gwynedd | 3% |

***Pam rydych yn meddwl eu bod nhw'n ymweld â'r ardal hon?***


| | |
|---|---|
| Traethau | 27% |
| Mynyddoedd | 23% |
| Harddwch | 17% |
| Gweithgareddau | 13% |
| Teulu | 12% |
| Heddwch | 6% |
| Cymru | 5% |
| Trenau | 4% |
| Egwyl | 4% |
| Beicio | 4% |

***Prif gystadleuwyr Gwynedd?***

| | |
|---|---|
| Yr Alban | 23% |
| Cernyw | 20% |
| Ardal y Copaon | 16% |
| Cymru | 15% |
| Ynys Môn | 9% |
| Arfordiroedd | 8% |
| Bannau Brycheiniog | 7% |
| Tramor | 6% |
| De Orllewin Lloegr | 5% |
| Ardal y Llynoedd | 2% |

***Ansawdd profiad ymwelwyr?***

Ar raddfa o 1-5 (5 fel y gorau), sut fyddech yn asesu ansawdd profiad ymwelydd i Wynedd?




***Os oes angen gwelliannau, beth ydyn nhw?***

| | |
|---|---|
| Gwella cyfleusterau i ymwelwyr | 28% |
| Gwella cyfleusterau cyhoeddus | 28% |
| Rhagor o atyniadau o safon uwch | 21% |
| Gwella'r ddarpariaeth barcio | 20% |
| Gwella gwasanaethau lleol | 19% |
| Rhagor o ymgysylltu sy'n garedig i dwristiaid | 17% |
| Gwella siopau a chyfleoedd i siopa | 13% |
| Gwella ffyrdd a mynediad i gerddwyr | 8% |
| Gwella rheoli biniau ac ysbwriel | 2% |
| Gwella hyrwyddo gweithgareddau awyr agored | 2% |

***Gwelliannau i isadeiledd?***

| | |
|---|---|
| Gwella gwasanaethau cyhoeddus | 26% |
| Gwella ffyrdd | 20% |
| Gwell safon o drafnidiaeth gyhoeddus | 19% |
| Rhagor o gefnogaeth a gwybodaeth i ymwelwyr | 16% |
| Gwella'r ddarpariaeth barcio | 14% |
| Gwella gwasanaethau trenau | 12% |
| Gwella toiledau cyhoeddus | 8% |
| Gwella cysylltiadau rhwng trenau a gwybodaeth am drenau | 4% |
| Gwella darpariaeth ysbytai | 4% |
| Gwella arwyddion | 4% |

### *Gwella gweithio mewn partneriaeth?*


| | |
|---|---|
| Rhagor o gefnogaeth i fusnesau lleol | 23% |
| Rhagor o ymgysylltu lleol | 23% |
| Gwella cefnogaeth a gwasanaethau i dwristiaid | 23% |
| Gwella cysylltiadau rhwng y sector twristiaeth | 20% |
| Gwella'r ddarpariaeth barcio | 9% |
| Rôl allweddol Cyngor Gwynedd | 9% |
| Grantiau ar gyfer datblygu busnesau lleol | 5% |
| Rhagor o farchnata o safon uwch, gan gynnwys marchnata ar y cyd | 5% |
| Gwella cyswllt lleol â darparwyr twristiaeth | 4% |
| Rhagor o ddigwyddiadau wedi eu hyrwyddo'n well | 4% |

### *Unrhyw beth arall?*

| | |
|---|---|
| Cynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn sydd gan Wynedd i'w gynnig | 27% |
| Gwella gwasanaethau gwybodaeth i dwristiaid | 25% |
| Denu mathau gwahanol o ymwelwyr ar draws ystod o oedrannau a diddordeb | 24% |
| Rhagor o atyniadau, gan gynnwys rhai dan do a naturiol | 20% |
| Rhagor o gefnogaeth a hyrwyddo lleol | 19% |
| Help gyda marchnata | 12% |
| Gwella gwasanaethau a mwynderau cyhoeddus | 8% |
| Rhagor o hysbysebu | 7% |
| Lleihau cyfyngiadau, e.e. parcio a chynllunio | 4% |
| Gwella ansawdd | 3% |

### *Math o fusnes neu sefydliad?*

Nodwch natur eich busnes neu sefydliad os gwelwch yn dda:




Yn olaf, gofynnwyd i ymatebwyr nodi eu cyfeiriad e-bost os oedden nhw'n dymuno cael rhagor o wybodaeth am ddatblygiadau ynghylch y cynllun rheoli cyrchfan a gweithgareddau cysylltiol, ac fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl wneud hyn.

# ATODIAD CH

**Prif Bwyntiau a Chasgliadau gweithdai o'r seminar rhanddeiliaid**
**23 Tachwedd 2012, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog.**

**Astudiaethau Achos**

CATALONIA

- Rhanbarth ymreolaethol gyda synnwyr cryf o hunaniaeth ac iaith,
- Amrywiaeth o bethau i'w cynnig i dwristiaid,
- Strategaeth dwristiaeth yn seiliedig ar egwyddorion cynaladwyedd, cystadleurwydd a chyfrifoldeb cymdeithasol,
- Partneriaethau rhanddeiliaid da rhwng asiantaethau a chwaraewyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat,
- Yn cynnwys gweledigaeth diriogaethol, nid dim ond un yn ôl sector.

SPEYSIDE

- Y brand = y syniad mawr – *"Antur Naturiol yr Alban"*,
- Mas critigol o fusnesau canolig i fawr,
- Ymrwymiad gan arweinwyr / llysgenhadon lleol,
- Sylw ar ganlyniadau – targedu nosweithiau / gwelyau,
- Pwyslais ar frandio a marchnata (Cysylltiadau cyhoeddus, y we, cyfryngau cymdeithasol),
- Sylfaen sgiliau – gweithgareddau awyr agored,
- Cefnogaeth gan y sector cyhoeddus (tua £120k – 50/50),
- "Tenant angori" h.y. sefydliad allweddol i harneisio'r fenter,
- Y gymuned o blaid y cynllun – ymgynghoriadau helaeth wyneb yn wyneb,
- Dolen i fframwaith strategol cenedlaethol Visit Scotland (is-sectorau: golff, gweithgareddau, bywyd gwyllt, atyniadau),
- Sectorau hamdden a chynadleddau.

LOCHABER

- Y brand = y syniad mawr – "Prifddinas Awyr Agored",
- Gweithgareddau – pwyslais ar ieuenctid / chwaraeon adrenalin (cymharer Queenstown, Seland Newydd),
- Digwyddiadau proffil uchel – adlewyrchu'r brand / "naws am le",
- Ymrwymiad gan arweinwyr / llysgenhadon lleol,
- Drwy'r flwyddyn.

Roedd y ddwy enghraifft o'r Alban yn dibynnu yn y pen draw ar y ffactorau allweddol a ganlyn:

- Syniad brand mawr,
- Arweinwyr cymunedol ac arweinyddiaeth,
- Y gymuned yn chwarae rhan fawr.

CANOLFAN RAGORIAETH ERYRI

- Prosiect wedi'i gefnogi gan yr Undeb Ewropeaidd i ddatblygu sector antur awyr agored, Meirionnydd drwy ledaenu cyfleoedd economaidd a chymdeithasol i fusnesau a chymunedau cyfagos;
- Prosiect cysylltiol 'Eryri – un antur fawr' mewn pedwar safle twristiaeth gynaliadwy;
- Mae'r prosiect yn defnyddio adnoddau naturiol eithriadol dde Eryri i sefydlu canolbwynt cydlynol ac integredig fel catalydd i ddatblygu twristiaeth ymhellach;
- Mae'n hwyluso'r gymuned i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu gweithgareddau awyr agored i sicrhau buddiannau economaidd diriaethol i'r boblogaeth leol;
- Mae'n darparu profiadau a chyfleoedd o safon uchel ledled y flwyddyn i ymwelwyr a thrigolion.

## Casgliad y Gweithdai

CWRDD Â GOFYNION YMWELWYR

- Mae angen i ni wneud rhagor i ddeall anghenion ein hymwelwyr a chipio gwybodaeth am eu disgwyliadau drwy ddefnyddio gwefannau, Apps a holiaduron addas yn ystod eu hymweliadau;
- Byddai hyn yn helpu i gyfrannu gwybodaeth at agweddau gofal cwsmeriaid a datblygu cynnyrch yn y dyfodol;
- Roedd y meysydd a allai fod angen sylw yn cynnwys cyfleusterau ac isadeiledd cyhoeddus, y ddarpariaeth o wybodaeth addas, a newid oriau agor er mwyn cwrdd â gofynion cwsmeriaid yn well;
- Yn ogystal, byddai'n werthfawr cael syniad o anghenion trigolion lleol, er mwyn gweld a fyddai modd sicrhau buddiannau cyffredin;
- Awgrymwyd cydweithio'n agosach fel sector, a chynnwys y gymuned ehangach, ynghyd â datblygu rhwydweithiau diwylliannol ymhellach i hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau;
- Roedd cytundeb cyffredinol y byddai gwella'r croeso ac ansawdd y llety a'r arlwyo yn fuddiol.

GWYBODAETH A CHYFATHREBU

- Amlygwyd gwella cyfathrebu wedi'i dargedu, o ran cyfleu gwybodaeth a gwrando ar ymwelwyr, a defnyddio amrywiaeth o gyfryngau effeithiol;
- Roedd angen cyfathrebu rhwng y gwahanol sectorau sy'n ymwneud ag ymwelwyr, er mwyn datblygu nodau cyffredin a chytuno arnyn nhw;
- Gallai cyfathrebu un i un, ar ffurf llysgenhadon lleol, fod yn effeithiol, yn yr un modd â gweithio'n effeithiol â phartneriaethau ac adnoddau presennol;
- Roedd Canolfannau Croeso yn dal yn hanfodol i'r economi leol, ond fe ddylen nhw ddod yn ganolbwyntiau cymunedol yn ogystal â gwasanaethau gwybodaeth i ymwelwyr, gan arddangos cynnyrch, digwyddiadau a gweithgareddau lleol, ac o bosibl gweithredu fel siopau un stop ar gyfer twristiaeth a datblygu economaidd lleol;
- Gellid gwneud rhagor hefyd i roi balchder mewn treftadaeth a diwylliant, a hyrwyddo hynodrwydd lleol neu naws am le.

ISADEILEDD Y SIR

- Roedd yn bwysig sicrhau fod yr isadeiledd lleol yn cyrraedd y safon yn wyneb pwysau economaidd, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau eraill. Gellir cyflawni rhywfaint o hyn drwy adrannau cyhoeddus cyfrifol yn gweithio'n strategol ac yn agosach gyda'i gilydd;
- Roedd rhai o'r materion mwyaf cyffredin a godwyd yn cynnwys toiledau, trafnidiaeth, ffyrdd a pharcio, ynghyd â'r angen am well safon o gysylltiad â'r rhyngrwyd a rhwydweithiau ffonau symudol;
- Ymysg y pethau eraill a amlygwyd, nodwyd yr angen i wella cynnal a chadw a rheoli traethau a mannau yng nghefn gwlad, canol trefi hanesyddol, llwybrau a ffyrdd eraill, a darparu canolbwyntiau ailgylchu, posib gyda chynllun rhoi i ymwelwyr.

MARCHNATA STRATEGOL AR Y CYD

- Roedd Eryri – Mynyddoedd a Môr yn barod yn adnabyddus fel menter farchnata ar y cyd allweddol, ond efallai bod angen nodi is-gyrchfannau eraill yn yr ardal;
- Trafodwyd nifer o sefydliadau marchnata, gan nodi'r gallet nhw fod yn gweithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd;
- Roedd yn bwysig peidio â cheisio gwneud popeth, ond gwneud yr hyn yr oedd y sefydliad yn ei wneud orau a'r hyn oedd ganddyn nhw'r adnoddau i'w gyflawni, ond gellid cyflawni darbodion maint;
- Roedd defnyddio cyfryngau newydd yn darparu cyfleoedd pwerus a chost effeithiol i dargedu rhan-farchnadoedd gwahanol a bod yn fwy hyderus efo'n negeseuon cryf.



Castell Penrhyn, Bangor

# ATODIAD D

## Dadansoddiad o apêl Gwynedd yn y farchnad

NATUR:

- Yr Wyddfa, a nifer sylweddol o fynyddoedd uchaf Eryri;
- Y cadwyni eraill o fynyddoedd yn cynnwys y Carneddau, Glyderau, Migneint, Rhinogydd a'r Eifl;
- 300 cilometr o arfordir, llawer ohono'n cynnwys Llwybr Arfordir Cymru;
- Ardal a ddynodwyd yn un o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC), yn ychwanegol at Barc Cenedlaethol Eryri;
- Awgrymodd ***Evaluation of UK Consumer Campaigns*** gan Groeso Cymru yn Ionawr 2009 mai Gwynedd – ac Eryri yn benodol – oedd y rhan o Gymru a ddenodd y mwyaf o ymwelwyr o blith yr ymatebwyr hyn (roedd 27% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg wedi ymweld ag Eryri).

DIWYLLIANT / TREFTADAETH:

- Rhan allweddol o gadarnle'r Gymraeg, lle mae 69% yn siarad Cymraeg: mae hyn yn atgyfnerthu Cymreictod hynod a dilys Gwynedd, a oedd yn cael ei ystyried yn ased gan 68% o ymwelwyr â Gwynedd;
- Hanes Celtaidd nodedig, yn dyddio o gyfnod cynhanes drwy gyfnod y Rhufeiniaid, ôl ddiwydiannol hyd heddiw;
- Arteffactau a chofebion cyfatebol, gan gynnwys meini hirion, bryngaerau a nodweddion eraill;
- Adeiladau sylweddol fel Safleoedd Treftadaeth y Byd Cestyll Caernarfon a Harlech, a rhyfeddodau pensaernïol mwy diweddar fel Castell Penrhyn a Phortmeirion.

GWEITHGAREDDAU:

- Dros 200 o fusnesion awyr agored wedi sefydlu yn yr ardal;
- Cerdded – 3328km o lwybrau, 291km o lwybr arfordirol, llwybrau ardal y llechi a llawer mwy o lwybrau thematig;
- Heicio (yn enwedig dringo a cherdded mynyddoedd) 15 Copa yn uwch na 3000 tr yn gartref i'r enwog Carneddau, Glyderau, Moelwynion a'r Aran;
- Beicio, beicio mynydd a lawr gwlad. Dros 50 km o Lonydd Glas sirol oddi ar y brifford, cyfleusterau byd enwog Coed Y Brenin ar lwybr newydd lawr allt *extreme* ym Mlaenau Ffestiniog;
- Pysgota afon, llyn a môr gyda dros 100 o lynnoedd ac afonydd a dros 300 km o arfordir;
- Golff – 16 cwrs golff a chyrsiau links a phencampwriaeth. Enwir cyrsiau Aberdyfi, Royal St. Davids Harlech a Nefyn yn rhestr cyrsiau gorau'r Deyrnas Unedig ac Iwerddonyng Nghylchgrawn '*Golf Monthly*';
- Hwylio a chwaraeon dŵr eraill – cyfleusterau o safon ryngwladol gan gynnwys Canolfan Cenedlaethol Chwaraeon Dŵr Plas Menai a Chanolfan Rhagoriaeth Hwylio ym Mhwllheli.



Wakestock, Pwllheli